



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Rheoliadau Rasio Moduron

Dyddiad cyhoeddi: 18 Gorffennaf 2017  
Ymatebion erbyn: 29 Awst 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.  
This document is also available in Welsh.

**Golwg Gyffredinol** Mae'r ymgynghoraid hwn yn gysylltiedig â chynigion i ddod â Rheoliadau i rym a fyddai'n nodi y cyrff hynny sy'n rheoli chwaraeon moduron, sydd â hawl i gyflwyno trwyddedau o dan adran 12B Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (yr "RTA") at ddibenion rasio moduron ar briffyrdd Cymru. Mae Adran 12B(6) yr RTA yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion restru'r holl gyrff sy'n rheoli chwaraeon moduron sydd â hawl i roi trwyddedau at ddibenion adran 12B.

**Sut i ymateb** Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion yw 29 Awst 2017.

Mae'r ddogfen ar gael ar y rhyngwrwyd:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/>

Byddwch cystal ag ymateb drwy:

- Lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad A; neu
- Anfon e-bost neu bostio eich ymateb gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

**Manylion Cyswllt**

Uned Cynllunio Trafnidiaeth

Cyfeiriad:  
Adran yr Economi a'r Seilwaith  
Llywodrareth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost:

[transportplanning@wales.gsi.gov.uk](mailto:transportplanning@wales.gsi.gov.uk)

ffôn:

0300 0253351

## Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni?

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn ei weld hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n fater pwysig inni ei ystyried. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## **Rheoliadau Rasio Moduron Cymru**

Mae'r ymgynghoraid hwn yn gysylltiedig â chynigion i ddod â Rheoliadau i rym a fyddai'n nodi y cyrff hynny sy'n rheoli chwaraeon moduron sydd â hawl i gyflwyno trwyddedau o dan adran 12B Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (yr "RTA") at ddibenion rasio moduron ar briffyrdd Cymru. Mae Adran 12B(6) yr RTA yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru restru'r cyrff sy'n rheoli chwaraeon moduron sydd wedi'u hawdurdodi i roi trwyddedau at ddibenion adran 12B.

Unwaith y bydd trwydded wedi ei roi, bydd deiliaid y trwyddedau yn gallu gwneud cais i'r awdurdod priffyrdd perthnasol am y gorchymyn rasio moduron angenrheidiol o dan adran 12C yr RTA. Byddai hyn yn awdurdodi rasio moduron ar y darnau o briffyrdd dan sylw. Bydd yr awdurdod priffyrdd yn penderfynu a ydynt am baratoi gorchymyn ras foduron yn unol ag adran 12D o'r RTA, drwy ystyried effaith debygol y digwyddiad ar y gymuned leol, yr economi leol bosibl a manteision eraill, ac unrhyw ystyriaethau eraill y mae'r awdurdod priffyrdd yn deimlo sy'n berthnasol.

Bydd yr ymarfer ymgynghori yn holi barn am yr opsiwn o'n dewis i wneud Rheoliadau yng Nghymru gan nodi'r Motor Sports Association ("MSA") a'r Auto Cycle Union ("ACU") fel cyrff sydd wedi eu hawdurdodi i roi trwyddedau o dan adran 12B o'r RTA at ddibenion rasio moduron ar briffyrdd cyhoeddus yng Nghymru.

## **Cefndir a Sefyllfa Gyfredol**

Mae gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru eisoes yr hawl i awdurdodi i gau ffyrdd ar gyfer digwyddiadau chwaraeon, achlysuron cymdeithasol neu ddigwyddiadau hamdden ar y priffyrdd, ond nid oes ganddynt yr hawl i gau ffyrdd ar gyfer ras foduron nac i atal rhag gweithredu y Deddfau Traffig Ffyrdd, gan olygu bod terfynau cyflymder, arwyddion traffig a'r angen i gerbyd fod yn ddiogel ar y ffordd yn parhau i fod mewn grym.

Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer troseddau traffig ffyrdd yng ngofal Llywodraeth Prydain ond mae Gweinidogion Cymru yn arfer rhai swyddogaethau gweithredol, gan gynnwys gwneud rheoliadau yn rhestru cyrff rheoli chwaraeon moduron sydd wedi'u hawdurdodi i roi trwyddedau ar gyfer rasio moduron ar y briffordd.

Yn 2014 fel rhan o'r Bil Dadreoleiddio, cynhaliodd Llywodraeth Prydain ymgynghoriad ar yr egwyddor gyffredinol y dylid caniatáu rasio moduron ar y priffyrdd gan gynnwys trosglwyddo swyddogaethau i Weinidogion Cymru o ran rasio moduron ar ffyrdd yng Nghymru.

Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cwblhau gwaith i ddechrau ar ddarpariaethau y Ddeddf Dadreoleiddio ar rasio moduron yn Lloegr, ac ym mis Ebrill 2017 daeth Rheoliadau i rym sy'n galluogi cynnal digwyddiadau rasio moduron ar briffyrdd yn Lloegr ar yr amod bod gorchymyn yr awdurdod lleol wedi ei baratoi.

Mae Rheoliadau Lloegr wedi paratoi'r ffordd ar gyfer rasio moduron ar y ffordd a threialon cyflymder am y tro cyntaf ac wedi nodi yr MSA a'r ACU fel y cyrff a fydd â'r awdurdod i roi trwyddedau ar gyfer digwyddiadau rasio moduron ar y ffordd yn Lloegr o dan adran 12B yr RTA.

Gweinidogion Cymru sydd â'r hawl i wneud y Rheoliadau uchod yng Nghymru. Yr MSA a'r ACU yw'r cyrff sydd ar hyn o bryd â'r awdurdod i roi trwyddedau ar gyfer digwyddiadau

chwaraeon moduron yng Nghymru. Diffinnir digwyddiad chwaraeon moduron mewn deddfwriaeth fel cystadleuaeth neu dreialon (yn hytrach na ras neu dreialon cyflymder).

Byddai'r cynnig yn dod â rheoliadau i rym a fyddai'n nodi'r cyrff sy'n rheoli chwaraeon moduron sydd wedi eu hawdurdodi i roi trwyddedau at ddibenion rasio moduron ar briffyrdd cyhoeddus wedi'u cau yng Nghymru.

### **Rheoliadau chwaraeon moduron yng Nghymru**

- Bydd yr ymarfer ymgynghori yn holi barn am yr opsiwn o'n dewis i wneud Rheoliadau yng Nghymru gan nodi'r Gymdeithas Chwaraeon Moduron ("MSA") a'r Auto Cycle Union ("ACU") fel cyrff sydd wedi eu hawdurdodi i roi trwyddedau o dan adran 12B o'r RTA at ddibenion rasio moduron ar briffyrdd cyhoeddus yng Nghymru.
- Unwaith y bydd y drwydded wedi ei rhoi, bydd deiliaid trwyddedau yna'n gallu gwneud cais i'r awdurdod priffyrdd lleol perthnasol i gymeradwyo y gorchymyn rasio moduron angenrheidiol a fyddai'n awdurdodi rasio moduron ar y darnau o'r briffordd dan sylw.

## Rheoliadau Chwaraeon moduron yng Nghymru

### Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1:** A ydych yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau?  
Ydwyf/Nac ydwyf

Eglurwch y rheswm dros eich ateb

**Cwestiwn 2:** Pa effaith fyddai hyn yn ei gael ar eich sefydliad?

**Cwestiwn 3:** Hoffem gael eich barn ar yr effaith fyddai'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar

- i) gyfleoedd i bobl defnyddio'r Gymraeg ac
- ii) ar drin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Pa effeithiau fydd yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effaith bositif, neu liniaru'r effaith negyddol?

**Cwestiwn 4:** Eglurwch hefyd sut yr ydych yn credu y gellid llunio'r newidiadau i'r Rheoliadau neu eu newid fel eu bod yn cael

- i) effaith bositif neu fwy o effaith bositif ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, a
- ii) pheidio â chael effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

**Cwestiwn 5:** Rydym wedi gofyn cyfres o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, mae croeso i chi eu nodi isod:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n ddiennw, ticiwch y blwch: